


Gwybodaeth i Gleifion Hyperplasia Prostad Anfaelen (BPH)

Adran Wroleg

Beth yw BPH?

Mae BPH yn golygu bod chwârren y prostad wedi chwyddo (**gweler y diagram isod**).


Wrth iddi chwyddo gall wasgu'r wrethra (y bibell ddŵr). Gall hyn achosi problemau wrth basio wrin.



Atgynhyrchir gyda chaniatâd caredig Health Press Ltd, Rhydychen

Ble mae Chwarren y Prostad a beth maen 'wneud?

Mae chwarren y prostad islaw'r bledren ac o flaen y rectwm - **gweler y diagram**. Mae eich wrethra (pibell ddŵr) yn pasio drwy ganol y chwarren. Organ atgenhedlu (rhyw) yw'r prostad ac mae'n cynhyrchu hylif sy'n rhoi maeth i'r sberm ac yn helpu i droi eich semen yn hylif wedi i chi alldaflu.



Atgynhyrchir gyda chaniatâd caredig Health Press Ltd, Rhydychen

Ar bwy mae hyn yn effeithio, a beth sy'n ei achosi?

Mae BPH yn effeithio ar 1 o bob 3 dyn dros 50 oed, a bydd y rhan fwyaf o ddynion yn cael rhai problemau yn sgil BPH erbyn eu 80 oed. Nid ydym yn deall yn iawn pam mae'r prostad yn chwyddo.

Ydy e'n golygu bod canser arna i?

Nac ydy. Clefyd anfaelen (benign) yw BPH, nid canser.

Pa broblemau mae'n gallu eu hachosi?

- Llif isel (wrin yn dod allan yn araf iawn).
- Oedi (Cymryd amser cyn i chi ddechrau pasio dŵr).
- Driblo ar ôl i chi orffen pasio dŵr.
- Ddim yn gwacau'ch pledren yn llwyr, felly teimlo'n fuan wedi i chi basio dŵr eich bod angen pasio wrin eto.
- Amllder (angen pasio dŵr yn fwy aml).
- Brys (gorfod rhuthro i'r toiled).
- Gollwng wrin cyn i chi allu cyrraedd y toiled (anymataliad brys)
- Codi yn ystod y nos i basio wrin (nocturia).
- Ymataliad wrin, yr wrethra mor gul oherwydd ymchwydd y prostad yn gwasgu arno fel bod rhwystr yn cael ei greu i lif y dŵr. Ddim yn gallu pasio dŵr o gwbl neu'n pasio ychydig yn unig.

Beth sy'n digwydd yn y clinig?

Bydd y meddyg yn gofyn ambell gwestiwn am eich iechyd yn gyffredinol ac unrhyw broblemau sydd gennych yn pasio dŵr. Byddwch yn cael eich archwilio, a bydd hyn yn cynnwys defnyddio bys i archwilio'r prostad drwy'r rectwm (DRE) Gan fod y prostad o flaen y rectwm, bydd y meddyg yn gallu teimlo cefn y prostad drwy roi bys yn y rectwm. Mae hyn yn anghyffyrddus i'r rhan fwyaf o bobl, ond nid yw'n boenus, ac fe gymer ryw funud neu ddwy.

Fydd angen unrhyw brofion eraill arna i?

Bydd. Bydd angen i chi roi sampl wrin i weld a oes gennych lid wrin. Efallai y cewch brawf gwaed i wirio ffwythiant eich arennau. Byddwch yn cael prawf mesur llif wrin (uroflowmetry). Bydd sgan uwch sain yn cael ei wneud ar ôl i chi basio dŵr i weld i ba raddau rydych chi wedi gwacau'r bledren. Os bydd angen profion eraill arnoch, bydd eich meddyg yn eu trafod gyda chi.

A ellir trin BPH?

Gellir. Yn dibynnu ar eich symptomau, pa mor drafferthus y maen nhw, a chanlyniadau'r profion, efallai y bydd eich meddyg yn awgrymu eich bod yn cael eich monitro bob hyn a hyn a'ch bod yn addasu faint o hylif rydych chi'n ei yfed neu'n dechrau cymryd meddyginiaeth. Os na fydd y rhan yn gweithio, neu eto'n dibynnu ar eich profion, efallai mai llawdriniaeth fydd y driniaeth fwyaf effeithiol. Pan ddewch i'r clinig bydd y meddyg yn trafod gyda chi pa driniaeth sydd orau i chi.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, gweler y manylion cyswllt isod ar gyfer y wardiau Wroleg a'r nyrsys Wroleg:-

Wroleg Ward D 2 Dwyrain

01633 234043 / 234044 (24 awr)

Adran Cleifion Allanol Wroleg

01633 234979

Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Ward Dydd Wroleg

01633 656378 / 656377

Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Nyrsys Clinigol Arbenigol Wro-Oncoleg

Julie Simpson

Sian Lewis

Louise Broadway

Kathleen Connor-Middleton

01633 238976 (Bydd yn dychwelyd negeseuon llais pan nad ydynt ar ddyletswyddau clinigol)

Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Ymarferydd Nyrsio Wroleg

Laura Reynolds

Leanne Denning

01633 234758

Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Ymholiadau llawdriniaeth/cyn-derbyn

01633 234970 / 238568

Oriau swyddfa dydd Llun - dydd Gwener

Cyfeiriadau:

Cymdeithas Llawfeddygon Wroleg Prydain (2004) Procedure Specific Consent Forms for Urological Surgery.

Tanagho E A McAninch J W 2003. Smiths General Urology

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English”.**